OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1157

# Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2005

**Diwygiadau i Reoliadau 2002: cyfranogiad y cyhoedd**

**3.**—(1) Yn rheoliad 2 o Reoliadau 2002, mewnosoder y diffiniad canlynol yn y lle priodol:

"ystyr "y cyhoedd" yw person neu bersonau naturiol neu gyfreithiol, gan gynnwys cyrff gofal iechyd a chyrff sydd â buddiant yn ansawdd yr aer amgylchynol ac sy'n cynrychioli buddiannau poblogaethau sensitif, defnyddwyr a'r amgylchedd ond heb eu cyfyngu i'r cyrff hynny;".

(2) Yn rheoliad 10 o Reoliadau 2002, mewnosoder ar ôl paragraff (11)—

"(12) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod cyfleoedd cynnar ac effeithiol yn cael eu rhoi i'r cyhoedd i gymryd rhan wrth baratoi ac addasu neu adolygu unrhyw gynllun neu raglen y mae'n ofynnol eu llunio o dan baragraff (3), yn unol â pharagraffau (13) a (14).

(13) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol—

(a) sicrhau bod y cyhoedd yn cael ei hysbysu, p'un ai drwy hysbysiadau cyhoeddus neu ddulliau priodol eraill megis cyfrwng electronig, ynghylch unrhyw gynigion ar gyfer paratoi cynlluniau neu raglenni o'r fath, neu ar gyfer eu haddasu neu eu diwygio;

(b) sicrhau bod unrhyw wybodaeth am y cynigion y cyfeirir atynt ym mharagraff (a) y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried ei bod yn berthnasol ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys gwybodaeth am yr hawl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ac i gyflwyno sylwadau i'r Cynulliad Cenedlaethol;

(c) sicrhau bod cyfle gan y cyhoedd i gyflwyno sylwadau cyn i benderfyniadau ar y cynllun neu'r rhaglen gael eu gwneud;

(ch) cymryd sylw dyladwy o unrhyw sylwadau o'r fath wrth benderfynu; a

(d) ar ôl astudio'r sylwadau a gyflwynwyd gan y cyhoedd, gwneud ymdrechion rhesymol i hysbysu'r cyhoedd am y penderfyniadau a wnaed a'r ystyriaethau y seiliwyd y penderfyniadau hynny arnynt, gan gynnwys gwybodaeth am y broses o gyfranogiad y cyhoedd.

(14) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi unrhyw wybodaeth y mae'n ofynnol iddo ei rhoi o dan baragraffau (12) a (13) yn y dull y mae'n ystyried sy'n briodol at ddibenion ei dwyn i sylw'r cyhoedd a rhaid iddo—

(a) peri bod copïau o'r wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd yn ddi-dâl drwy wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru; a

(b) pennu mewn hysbysiad ar y wefan honno y trefniadau manwl a wnaed i'r cyhoedd gymryd rhan wrth baratoi, addasu ac adolygu cynlluniau neu raglenni, gan gynnwys

(i) y cyfeiriad lle mae'n rhaid cyflwyno sylwadau, a

(ii) yr amserlenni erbyn pryd y ceir cyflwyno sylwadau, gan ganiatàu digon o amser ar gyfer pob un o'r gwahanol gyfnodau i'r cyhoedd gymryd rhan fel sy'n ofynnol gan baragraffau (12) a (13).”.

(3) Yn rheoliad 12 o Reoliadau 2002, hepgorer paragraff (9).